

## Buddion y Goedwig

*Yn lleddfu straen*

*Lleihau poeni a phryder*

*Gwella hwyliau a lefelau ynni*

*O gymorth i gysgu'n well*

*Canfod llonyddwch, creadigrwydd ac eglurder*

*Gwella iechyd y galon a'r ysgyfaint*

*Arafu lawr, anadlu a bod yn ymwybodol o'r hyn sydd uwch eich pen, dan eich traed ac o'ch cwmpas a sut yr ydych yn teimlo.*



## Golygfa Gwydyr

Y mae Golygfa Gwydir yn grwp cymunedol sydd wedi ei leoli yn Llanrwst. Yr ydym yn gorff di-elw, wedi ei arwain gan y gymuned ac yn cefnogi pobl yn ardaloedd gwledig Conwy drwy weithgareddau llesiant yn Llanrwst, Caerdroia a Choedwig Gwydir. Anelwn i wella llesiant cymunedau a datblygu balchder yn niwilliant a threftadaeth yr ardal drwy weithgareddau cynhwysol agored i bawb.


**Golygfa Gwydyr**
Adeilad Cymunedol
Stryd yr Aradr
Llanrwst
LL26 0AG

01492 642 110
info@golygfagwydyr.org
www.golygfagwydyr.org
/GolygfaGwydyrLlanrwst





## Gwirfoddolwch a rhannwch

A hoffech wybod beth a wnawn, yna ymunwch yn ein gweithgareddau a /neu gwirfoddolwch hefo ni? Cysylltwch.

A ydi'r daith wedi eich ysbrydoli? Rydym yn eich gwahodd i rannu eich profiadau o Caerdroia a Golygfa Gwydir hefo ni – Cymerwch olwg ar ein gwefan a thudalen Facebook os gwelwch yn dda.

*Taith Gerdded Olygfaol*

# Golygfa Gwydyr - Caerdroia

Darganfod tawelwch ac egni Coedwig Gwydir



Golygfa Gwydyr


Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund



# Trosolwg

Yng nghrombil Coedwig Gwydir y mae lle o'r enw Caerdroia (troellfa neu labyrinth). Safle hudolus yn y goedwig er lles y gymuned. Y mae'r daith hunanarweiniol yma yn mynd â chi ar daith o Golygfa Gwydir yn nhref marchnad hanesyddol Llanrwst, ar draws y dyffryn i fyny drwy goedwig a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel eich bod yn darganfod Caerdroia. Gellwch wneud hyn wrth eich pwysa eich hunan neu drwy un o'n digwyddiadau ni.

**Pellter:** Cyfanswm o tua 5.8 milltir / 9.3 km.

**Amser:** Gadewch o leiaf 4 awr ar gyfer y daith.

**Llwybrau a thirwedd:** Llwybrau coedwig a traciau coedwig. Peth tir anwastad a serth.

**Cyfarpar:** Gwisgwch esgidiau addas, dillad addas, eli haul ac unrhyw fwyd a diod y byddwch ei angen.

**Toiled:** Y mae toiled compost yn safle Caerdroia y gellwch eu defnyddio yn ystod yr ymweliad.

**Bws–Mini:** Ar gyfer y rhai fyddai'n cael trafferth i gyrraedd Caerdroia, Yr ydym, yn achlysurol yn trefnu tripiau o Lanrwst fel rhan o'n digwyddiadau. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni.



a


e


g



b


c


f


h


d

## Côd Cefngwlad

Parchwch pawb

Gwarchodwch yr amgylchfyd

Adnabyddwch sumbolau ac arwyddion cefn gwlad

Mwynhewch yr awyr agored

## Dewch i chwilota yng Nghaerdroia

Dyma rhai o'r nodweddion cyffrous a gweithgareddau sy'n digwydd yng Nghaerdroia. Mwynhewch y chwilio!

- **a** Pwll y fforest
- **b** Plinth Caerdroia
- **c** Cerflun cwlwm Celtaidd
- **d** Tim y goedwig yn gweithredu
- **e** Gwarchodfa bren a safle gweithgareddau
- **f** Chwilota yn y goedwig
- **g** Y Gadair fawr a cherfiadau bwrdd
- **h** Storiau tylwyth teg a'r dewin!

# Cerdded i Gaerdroia

Byddwch yn rhannu rhywfaint o'r daith hefo beicwyr mynydd ac yn cerdded ar hyd rhywfaint o ochrau serth a thir anwastad.

**1** Gan gychwyn o Olygfa Gwydir, cerddwch tua'r Co-op a throi i'r chwith a dilynwch yr arwydd i ganol y dref. Ar y gyffordd wrth sgwar y dref, trowch i'r chwith a chroesi'r ffordd. Ewch yn eich blaen fel y gellwch weld y Bont Fawr (pont gerrig) a Tu hwnt i'r Bont (ystafell de). Cerddwch dros y bont (sy'n cael ei defnyddion gan gerddwyr a cherbydau). Llun © Steve Gill.



**2** Dilynwch y palmant ar y B5106 i'r gyffordd. Trowch i'r chwith gan ddilyn y palmant a'r ffordd i gyfeiriad Betws y Coed a Chastell Gwydir. Wrth fynd ymlaen (a chyn cyrraedd y fynedfa i Gastell Gwydir) edrychwch i'r dde dros y ffordd ar ddrws cerrig yn y gwrych.



**3** Croeswch y ffordd yn ofalus a dilyn y llwybr sy'n troelli ei ffordd drwy'r coed heibio adeiladau Gwydir uchaf a'r Capel. Trowch i'r dde wrth y Capel a dilyn y llwybr at giat fochyn, cae bychan ac yna giat fochyn arall i ymuno â phrif drac Coedwig Gwydir.




**4** Trowch i'r dde a pharhau hyd nes y byddwch wedi cyrraedd maes parcio y Fainc Lifio. Ar y chwith fe welwch fyrddau arddangos a mynedfa i lwybrau beic Gwydir Bach a Gwydir Mawr. Ewch heibio y rhain a mynd ar y llwybr sydd wedi ei nodi fel Llwybr yr Arglwyddes Fair. Mae hwn yn ran serth ond gyda digon o gyfleon i orffwys ac edmygu'r olygfa o Dyffryn Conwy.



**5** Fel y byddwch yn cyrraedd pen y llwybr byddwch yn gweld darlun/hysbysfwrdd o hen neuadd y dref Llanrwst. Yna cerddwch drwy fwlch yn y ffens bren er mwyn ymuno â trac coedwig.





6 Y mae'r daith yn parhau ar y llwybr o'ch blaen. Ond, gellwch gymryd gwyriad byr oddi ar y trac a mynd i'r chwith gan gymryd y troead (wedi ei farcio â saeth gwyn) fel eich bod ar lwybr i'r olygfan, mainc a cherfluniau "Tyrau Derw". Mae y rhain yn dangos barddoniaeth a cherddoriaeth wedi ei ysgrifennu am Lanrwst.









7 Ewch yn ôl i ddechrau'r gwyriad a mynd i fyny'r llwybr troed ac i'r chwith. Yna trowch i'r dde ar drac y goedwig. Edrychwch am lwybr sydd ar y chwith. Gan gymryd y llwybr yma fe welwch gerflun arall "Y Sbardun" ar yr ochr chwith. Cafodd y Sbardun ei ysbrydoli gan Dafydd ap Siencyn (Y Robin Hood Cymreig). Canfyddwyd ei sbardunau yn y fan yma ac y maent yn awr yn cael eu harddangos yn Eglwys Sant Crwst, Llanrwst.

9 Dychwelyd i Lanrwst. Bydd Caerdroia a giat y Ffoest y tu ôl i chi, aildroediwch eich camau a throwch i'r chwith a dilyn trac y goedwig gan gadw i'r chwith wrth y gyffordd gyntaf a hefyd yr ail. Ar ôl yr ail gyffordd trowch i'r dde i lawr y llwybr a pharhau heibio'r Sbardun.



10 Ewch i'r dde ar drac y goedwig. Parhau ar hyd y trac a heibio'r llwybr ar y chwith (yr hwn y daethoch i fyny arno) a heibio'r trac ar y chwith. I lawr i droead siarp a byddwch yn mynd heibio y Lawnt Fowlio Tuduraidd ble mae meinciau picnic a golygfan arall.

8 Ewch ymlaen i fyny'r llwybr, croesi'r trac a dilynwch y llwybr unwaith eto. Fel y dowch i drac y goedwig unwaith eto, trowch i'r chwith arni ac yna mynd i'r dde yn y gyffordd. Ewch ar hyd trac ac yn y gyffordd nesaf cadwch i'r dde a pharhau nes bydd y trac yn gwastadhau rhyw gymaint. Trowch i'r dde wrth giat y goedwig a byddwch wedi cyrraedd Caerdroia. Croeso a mwynhewch wrth i chi archwilio'r safle.









11 Ymlaen ar hyd y prif drac y goedwig a heibio trac bach ar y dde. Chwiliwch am lwybr troed cul (y bu i chi ei gerdded ar y ffordd i fyny) ar yr ochr dde eithaf o'r prif drac. Dilynwch y llwybr yma allan o'r goedwig ac yna'r palmant yn ôl i Lanrwst a Golygfa Gwydyr.